

Bwceibo

Cwmni theatr unigryw yw Cwmni Bwci Bo, a sefydlwyd i gofnodi cyfraniad menywod at hanes Cymru. Gyda'i chynhyrchiad diweddaraf, Catrin Glyndfir, ar daith, mae un o'i ddwy sylfaenwraig, HELEDD BIANCHI, yn esbonio cefndir y cwmni.

THEATR/BARN ■ GORFFENAF/AWST200491

roedd yna atgof am y cyfnod y
treuliodd fy chwaer, Rhiannon, a
finne ar stondin Gwrth-Apartheid bob
bore dydd Sadwrn yn dosbarthu
taflenni Rhyddhau Mandela, gyda
Haniff Bhanji a Dad. Yna, yn y
prynhawn, byddem yn canu gyda
Chôr y Cochion ar yr Hayes yng
Nghaerdydd, tra roedd y rhan fwyaf o
blant ein hoedran ni yn cael eu llusgo
o gwmpas y siopau gyda'u teuluoedd.
Cafodd Mam a finne lot o sbri yn
hel yr atgofion yma 'da'n gilydd. Toc,
daeth syniad arall. Roedd y Groovy
Ŵran wedi bod yn syniad da, ond
roeddwn i am ddefnyddio fy

mhrofiadau a'm magwraeth er mwyn
creu'r ddrama. Ar ôl yr ail lasied o
Grenache, cefais fflach mwy pwerus
y tro hwn. Roedd cymeriad y ddrama
yn eistedd o'm blaen, pwy arall ond
Mam? Dyna ddechreuad ar sioe
gyntaf y cwmni, sef *Yr Un Cam*.

Seiliais gymeriad y ddrama ar Mam.
Roeddwn am i'r cymeriad bortreadu
mam draddodiadol a oedd hefyd yn
wleidyddol. Penderfynais ysgrifennu
sioe mewn steil cabaret a oedd yn
dathlu cyfraniad menywod at
wleidyddiaeth Cymru dros y deugain
mlynedd ddiwethaf. Roedd y sioe er
cof am Helen Thomas, a gafodd ei
lladd yn ei hugeiniau cynnar gan
gerbyd ceffylau tra'n protestio ar
Gomin Greenham, ac am ffrind
annwyl i'r teulu, sef Mary Crofton, a
fu farw yn eithaf diweddar yn 82
mlwydd oed. Dyma ddwy fenyw a fu
ar flaen y gad gydag ymgyrchoedd
yng Nghymru ac yn Iwerddon. Roedd
un yn ifanc a'r llall yn hen ond yn dal
ar 'yr un cam' gwleidyddol mewn
bywyd.

Ysgrifennais *Yr Un Cam* yn y
Gymraeg ac yn y Saesneg, sef *The
One Road*. Fe gyfarwyddwyd y sioe
gan Mam, ac fe'i perfformiwyd hi'n
ddwyieithog yn Chapter, Caerdydd a
Theatr Felin-fach, Llanbed yn 2003.
Yn anffodus, ni chawsom
gymhorthdal gan Gyngor y

Celfyddydau ond penderfynom fwrw
'mlaen gyda'r sioe ta beth drwy lafur
cariad yn unig.

Roedd y daith yn un llwyddiannus.

Rhoddodd y sioe yr hyder i ni barhau
â'n breuddwyd a hefyd i benderfynu
beth oedd nod y cwmni a pha
drywydd yr oedd am ei ddilyn.

Penderfynom taw ein nod oedd codi
ymwybyddiaeth am fenywod sydd
wedi gwneud cyfraniad pwysig at
hanes Cymru. Daeth awen unwaith
eto ar ddiwedd 2003 am yr arwres
nesaf roeddem am ei phortreadu, sef
Catrin merch Owain Glyndfir. Gan
fod 2004 yn dathlu chwe
chanmlwyddiant ers i Owain
Glyndfir gael ei goroni'n Dywysog
Cymru a sefydlu'r Senedd gyntaf i
Gymru ym Machynlleth ym 1404, fe
benderfynom ni ysgrifennu sioe un
fenyw sy'n adrodd hanes Catrin ei
ferch, a gafodd ei charcharu gyda'i
Mam, Mared, a'i phlant yn Nhfir
Llundain yn ystod gwrthryfel Owain
Glyndfir yn erbyn Brenin Lloegr. Prin
yw'r sôn am hanes Catrin, a
theimlwyd bod angen adrodd yr
hanes coll hwn fel bod pawb yn cael
y cyfle i weld hanes Glyndfir trwy
lygaid ei ferch. Cyfarwyddwyd y sioe
gan Huw Garmon, a llwyddwyd i
dderbyn grant gan Gyngor y
Celfyddydau y tro hwn.

Drama Gymraeg yn unig yw *Catrin*

Glyndfir ar hyn o bryd, ond mae
Mam wrthi'n ysgrifennu'r addasiad
Saesneg, ac mi fydd y ddrama
Saesneg yn barod i deithio o fis Medi
2004 ymlaen. Bu'r sioe ar daith ers
mis Mai 2004 ac mi fydd hi'n parhau
i deithio tra bod chwant. Mae'r
ymateb wedi bod yn ffantastig hyd
yma, felly 'da ni'n llawn gobaith y
bydd y brwdfrydedd yn parhau. Mi
fydd perfformiad Saesneg ac efallai
un Cymraeg o'r sioe (yn dibynnu ar y
gynulleidfa) yn digwydd yn Nhfir
Llundain, mis Chwefror, 2005 am taw
dyma'r mis y cafodd Catrin a'i theulu
eu cipio. Mae potensial mawr iawn i'r
sioe, a dwi'n argyhoeddedig y bydd y
sioe yn dilyn trywydd diddorol dros
ben.
Mi fydd drama unigryw arall ar y
gweill yn fuan hefyd, felly cadwch yn
effro.

Catrin Glyndfir – Gweddill y Daith Canolfan Glyndfir/Theatr John Ambrose,
Rhuthun 16eg o Fedi, '04 am 7.30yh. Swyddfa Docynnau – 01824 703933 Clwyd Theatr Cymru/
Theatr Emlyn Williams, Yr Wyddgrug 25ain o Fedi, '04 am 7.45yh. Swyddfa Docynnau – 0845
3303565 Theatr Y Werin, Aberystwyth

14eg o Hydref, '04 am 8.15yh. Swyddfa Docynnau – 01970 623232 Os hoffech ragor o fanylion am y
cwmni, neu am ein sioeau, yna gellwch ymweld â'n gwefan ar www.bwcibo.co.uk, neu cysylltwch â fi ar
heledd@bwcibo.co.uk

Henry IV

ac arwres Gymraeg

92 GORFFENAF/AWST2004 ■ THEATR/BARN

Rwy'n aml yn meddwl ein bod

ni'n colli presenoldeb Brith

Gof yn ein diwylliant
perfformiadol. Mae'n wir fod
dylanwad Brith Gof yn dal i'w weld
yng ngwaith rhai o'n artistiaid mwyaf
blaenllaw, ond roedd dod wyneb-ynwyneb
yn sioe Brith Gof gyda'i geirfa
a'i ieithwedd unigryw yn gyfraniad
arbennig i'n dealltwriaeth o hanfod
theatr.

Buasai sioe Catrin Glyndfir wedi
elwa o ganfyddiad â Brith Gof, hynny
yw y Brith Gof a fu'n genad i waith
syml pur a gonest Jerzy Grotowski a'r
theatr dlawd. Mae cyfuno symud,
canu, dawns a thestun yn ganolog i
arddull Grotowski ond y mae popeth
yn cael ei reoli gan ddramatwrgi
cadarn sydd yn naddu syniadau ac yn
eu miniogi. O ganlyniad collir yr hyn
sydd yn wastraffus, yn ddianghenraid
ac yn addurn a chadw'r hyn sy'n
hanfodol.

Mae'r theatr dlawd yn dod â ni'n
syth at rym yr actor a'i gyfathrebu
uniongyrchol gyda chynulleidfa heb
unrhyw rwystredigaeth. Mae'r actor
yn negyddu ei hunan ac yn dod yn
gyndwyd i'r cynnwys. Mae hyn yn
gofyn am fath arbennig o actio. Actio
cyhyrog, teimladwy a gonest. Actio
lle na ellir gweld 'actio', bod yn
hytrach na pherfformio.

Roedd yr arddull hwn, pan oedd
i'w weld yn sioeau Brith Gof, yn
angenrheidiol fel gwrthbwynt i'r math

o 'berfformio' sydd ambell waith i'w
weld ar lwyfannau'r Eisteddfod ac
mewn ambell i ysgol a choleg actio.
Yn ogystal roedd yn cysylltu ein
diwylliant perfformiadol gyda phrif
ffrwd theatr y byd. Peth iachus a oedd
yn rhoi cadernid i'r diwylliant
perfformiadol cynhenid ac yn ein
galluogi i fantoli, i gwestiynu ac i
osod safonau.

Yn rhy aml câi dyn y teimlad mai
dim ond theatr a grewyd yn y filltir
sgwâr yr oedd pobl am ei gweld.
Efallai eu bod yn gweld theatr
Saesneg yn Llundain neu yn Stratford,
neu'n gweld miwsical. Theatr sy'n
cael ei dynodi fel theatr rethregol.
Roedd gweld sioeau Brith Gof yn
chwa o awyr iach. Roedd y gwaith o
1981 i 1988 yn arbennig wedi gosod
cynsail unigryw i'r traddodiad
perfformiadol ac i theatr Gymraeg a
Chymreig, ac o ganlyniad ysgogodd
fwrlwm theatrig yng Nghymru a thu
hwnt.

Un o'r elfennau pwysig yn y
gwaith oedd dweud stori, ac adrodd
stori fel theatr. Roedd Mike Pearson a
Liz Hughes Jones yn feistri yn y maes
hwn, fel y maent o hyd. Wrth wyllo'r
sioe *Catrin Glyndfir*, gwaith Liz yn
arbennig a ddaeth i'm meddwl. Y
ffordd gyhyrog roedd hi'n defnyddio
pob symudiad i gyfathrebu a phob
goslef o'r llais i fynegi teimlad ac

emosiwn. Y ffordd y medrai
argyhoeddi bod pob elfen ddramatig,
bob cân, dawn a cherdd yn
hanfodol, wedi eu gwaelodi yn onest
ac yn dod o'r galon. Dim ystum
ddiangen, dim symudiad dibwrpas,
popeth yn gwasanaethu'r stori roedd
hi am ei chyfathrebu i'r gynulleidfa.
Roedd yn help bod y rhan fwyaf o'r
perfformiadau yn cael eu cynnal
mewn lleoliadau unigryw ac nid
mewn theatr. Perfformiadau heb y
berthynas anwastad rhwng y
perfformiwr a'r gynulleidfa. Y
gynulleidfa yn derbyn a'r perfformiwr
yn rhoi. Byddai'r uniongyrchedd hwn
wedi bod yn arddull ddelfrydol i
Theatr Bwci Bo ac i'r sioe Catrin

Glyndfir.

Mae Catrin Glyndfir, merch Owain
Glyndfir, wedi ei phortreadu yn y
theatr o'r blaen, yn rhan gyntaf *Henry*
IV Shakespeare. Yno y mae hi'n ferch
gariadus a theimladwy. Yn ddi-ddorol
yn *Henry IV* nid yw hi'n siarad ond
yn y Gymraeg (nid yw Shakespeare
yn ysgrifennu geirau iddi). Yn y
ddrama gan Shakespeare, gwraig
ydyw i Mortimer. Ond, er y broblem
ieithyddol rhyngddynt – 'ni all fy
ngwraig siarad Saesneg, a minnau
ddim Cymraeg' – ysgrifenna
Shakespeare fod Mortimer yn teimlo
yr un mor gryf amdani: 'Rwy'n deall
d'edrychiad: y Gymraeg brydferth. Yr

t h e a t r

Aeth CERI SHERLOCK i weld cynhyrchiad Theatr Bwci Bo o Catrin Glyndfir yng Nghanolfan y Chapter, Caerdydd.

Henry IV

ac arwres Gymraeg

THEATR/BARN ■ GORFFENAF/AWST 2004 93

wyt yn ei lifo o'r nefoedd

chwyddedig.' 'Rwy'n deall dy goflaid

a thithau f'un i.'

Ond hanes Catrin ar ôl y briodas

yw canolbwynt perfformiad Theatr

Bwci Bo pan y'i cipiwyd hi yng

Nghastell Harlech yn 1409 a'i

chymryd i Dfir Llundain gyda'i

phlant a'i mam, Mared, gwraig

Glyndfir. Roedd Catrin, ei mab Lionel

a'i thair merch yn wystlon pwysig

iawn. Roedd y plant yn etifeddion

posib i goron Lloegr drwy'r briodas

rhwng Catrin ac Edmwnd Mortimer.

Carcharwyd Catrin a'i phlant yn

Nhfir Llundain am bedair blynedd.

Ond erbyn 1413 roedd grym

gwrthryfel Owain Glyndfir wedi'i

dreulio, a daeth brenin newydd i

orsedd Lloegr ym mis Mawrth, sef

Harri V. Erbyn mis Rhagfyr roedd

Catrin a dau o'i phlant yn farw ac fe

nodir manylion eu claddu yn 1413 yn

Eglwys San Swithin yng nghanol

Dinas Llundain. Bellach mae cofeb

iddi yno. Fe'i dadorchuddiwyd gan

Siân Phillips, digwyddiad oedd yn

cofio sefydlu Senedd i Gymru gan

Owain Glyndfir chwe chanrif yn ôl.
Yng nghynhyrchiad Theatr Bwci Bo defnyddir ei chyfnod fel carcharor fel dyfais i edrych yn ôl ar ei bywyd, ar ei pherthynas â'i thad drwy lythyron, ac ar ei phlentyndod a blynyddoedd ei mebyd yn Sycharth. Defnyddir cerddi gan Feirdd yr Uchelwyr, Aneirin, darn o'r Mabinogi a cherddi a phenillion gan Menna Elfyn a Myrddin ap Dafydd. Ceir hefyd ganeuon traddodiadol a chaneuon menywod Greenham. Nid yw hyn yn creu naratif draddodiadol ond yn hytrach yn creu plethwaith adleisiol fel cerdd hir. Mae hi'n sript effeithiol ar ei gorau ond efallai yn cymryd yn ganiatol ein bod ni'n gwybod am stori Catrin a'i pherthynas â Mortimer. Mae uchelgais Theatr Bwci Bo i godi ymwybyddiaeth am fenywod a wnaeth gyfraniad pwysig i hanes Cymru yn glodwiw ac yn sicr mae'r sioe yma am Catrin Glyndfir yn cyflawni'r nod i'r dim. Mae'r berfformwraig yn y sioe un person hon, Heledd Bianchi, yn amlwg yn ddawnus. Mae ganddi bresenoldeb cryf a sicr. Serch hynny ni lwyddai i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r gynulleidfa ac ar adegau gorymgollai mewn 'perfformio' a llafarganu. Mae sioeau un person yn gyfle arbennig i artist. Rydym yn lwcus iawn yng Nghymru, ac yn y theatr

Gymraeg, i allu elwa o drawsoriad o artistiaid gydag arddulliau amrywiol a diddorol, merched megis Eddie Ladd. Yn y dyddiau yma mae sioeau un person yn ffurf boblogaidd (ac economaidd) ac effeithiol. Mae rhai'n elwa o bob math o dechnegau theatrig, fel gwaith Robert Lepage ac eraill yn nhraddodiad Grotowski, fel y bu Brith Gof gynt. Braf fuasai gweld mwy o'r perfformio uniongyrchol hwn yn y theatr Gymraeg.